

10

Fw: William Jones
Dyddiad geni: 1566
Dyddiad marw: 1640
Priod: Margaret ferch Griffith ap John Griffith
Plentyn: Elinor Price (née Jones)
Plentyn: Elizabeth Littleton (née Jones)
Plentyn: Robert Jones
Plentyn: Griffith Jones
Plentyn: Charles Jones
Plentyn: William Jones
Rhiant: Margaret Wynn
Rhiant: William ap Griffith ap John
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: barnwr
Maes gweithgaredd: Cyfraith
Awdur: Arthur Herbert Dodd

Roeddwyd yr ail fab, GRIFFITH JONES, ar gornïwn araf Sir Gaernarfon gan Siarl 1 (12 Awst 1642), ond yn fuan cododd cweryl rhwyngddo a **John Griffith II** o Gefnamwlch ynglŷn â gorchymyn brenhinol i symud gynnuau ar arfordir Llŷn i amddiffyn y gorau. Haerai Jones y byddai hyn yn dra pheryglus i amddiffyniad yr arfordir. Wedi hyn ymddengys na chymherodd fawr nar mewn bywyd cyhoeddus hyd oni apwyntiwyd ef i bwyllgor trethu'r sir ym mis Mehefin 1647 ar ôl i'r sir syrthio i ddwylo'r senedd. Ar 6 Mawrth 1649 croesodd y capten brenhinol, Bartlet, o Wexford, gan ysbello G castellmarch, a chipio Griffith Jones, hwyrach fel gwystr dros fywyd **Syr John Owen** a gongdemniedd i farwolaeth ychydig cyn hynny. Parhaodd i wasanaethu ar bwyllgorau sirol (hyd yn oed tan gyfundrefn Barebones) hyd nes i'r Weriniaeth syrthio, ond nid oedd yn bleidiol i'r Biwritaniaeth a oedd mewn bri. Erbyn Mawrth 1660 daethai'n gefnogwr i'r Adferiad, gan wasanaethu fel ustus sirol yn y corlannu ar y drwgdybiedig, a chefyd ym milisia 'r sir. Er hynny fel'i cafodd ei hun ymrhif y rhai o Lŷn a garcharwyd yng Nghaernarfon am beth amser ar ôl yr Adferiad oherwydd drwgdybio'u syniadau gwleidyddol. Yn 1663, fodd bynnag, enwyd ef yn sylfil. Priododd ei ferch, Margaret, Syr William Williams, y Faenol.

Bu'r pedwerydd mab, CHARLES JONES, barygreithiwr o Lincoln's Inn, yn gofiadur Biwmares o 1625 ymlaen, ac yn aelod seneddol dros y fwrdeisdref honno yn seneddau 1624, 1625, 1626, a 1628-9. Yn y Senedd Fer, 1640, etholwyd ef dros Fynfyn hefyd. Cyntwrthwydd Selden i baratoi cyhuddiadau yn erbyn Buckingham yn senedd 1626, ac yn senedd 1628 bu'n cyd weithio ag Edward Littleton, yr aelod dros Gaernarfon a barnwr ag gylchdaith sir Fôn (gŵr ei chwaer, Elizabeth), yn y paratoadau ar gyfer y 'Petition of Right'. Pan ddaeth senedd 1628 i ben bu'n amddiffyn un o'r aelodau a gyhuddwyd o ymddygiad bradwrus yn y Tŷ. Yr oedd yn siryf ei sir yn 1638, ac yn y Senedd Fer ef oedd cadeirydd y pwyllgor breintiau. Bu farw yn fuan ar ôl hyn. Ef a **William Price**, Rhiwlas (**gweler PRICE (TEULU)**, **Rhiwlas**, oedd sylfaenwyr elusdai Llanguby. Daeth llinell wrywaidd y teulu i ben gyda'i genhedlaeth ef.

Firth a Rait, *Acts and Ordinances of the Interregnum, 1642–1660* (London 1911)

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1942, 31, 38-9, 60-1, a 1945, 20, 27, 31, 39, 42, 47, a 1946-7, 62-3
A. H. Dodd, *Studies in Stuart Wales* (Cardiff 1952), 83, 130, 159, 173,
ac yn *Trafodion Gymdeithas Hanes Sir Gaernarfon* xiv, 1953, 2-3, 7, 9, 15, 17, 26, 29, 31-3

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 53132956
Wikidata: Q8013736

Dyddiad cyhoeddi: 1970
Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Dodd, A. H., (1970). JONES, Syr, WILLIAM (1566-1640), barnwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-JONE-WIL-1566>



Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION

Nodeu gan:
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government